Rhaglen Ariannu Strategol
2009/10

Cyfeirnod Unigryw:
_____ /_____ (At ddefnydd y swyddfa'n unig)

Comisiwn
**Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

**equalityhumanrights.com**

Rhaglen Ariannu 2009–12

# Rhaglen Ariannu Strategol 2009/10

## Ffurflen Cynnig Amlinellol (Cam 1)

# Ffurflen Cynnig Amlinellol (Cam 1)

**Defnyddiwch y ffurflen hon yn unig: peidiwch â chynnwys na chyfeirio at unrhyw ddogfennau eraill**

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (y Comisiwn) yn falch iawn bod eich sefydliad yn ystyried cyflwyno cais i Raglen Ariannu Strategol 2009/10. Fel y cam cyntaf wrth wneud cais am gyllid, hoffem i chi lenwi'r 'Ffurflen Cynnig Amlinellol' hon.

Noder: nid oes angen unrhyw ddogfennau eraill arnom ar hyn o bryd, felly peidiwch â chynnwys na chyfeirio at unrhyw ddogfennau eraill wrth gyflwyno'ch cynnig.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod y broses asesu mor hawdd â phosibl i chi ond, weithiau, byddwn yn defnyddio termau y gall gwahanol sefydliadau eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Mae esboniad o'r termau hyn yn Atodiad 1 o'r nodiadau cyfarwyddyd. Os byddwch chi angen unrhyw gyngor pellach ar ôl darllen y rhain, cysylltwch ag un o'r bobl a restrir yn Atodiad 5.

## Gofynion hygyrchedd ar gyfer cyfathrebu

Ar y cyfan, rydym yn cyfathrebu â sefydliadau sydd wedi cyflwyno cais dros yr e-bost a/neu drwy'r post trwy ddefnyddio maint ffont 14. Os ydych chi'n hapus â'r trefniadau hyn, rhowch ✔ yn y bocs: ☐

Os nad yw'r trefniadau cyfathrebu hyn yn diwallu'ch anghenion hygyrchedd, ffoniwch ni ar **0203 117 0288** neu anfonwch e-bost i **funding@equalityhumanrights.com** i drafod sut y gallwn ni helpu.

**PWYSIG: Fe'ch cynghorir yn gryf i ddarllen y nodiadau cyfarwyddyd cyn llenwi'r ffurflen hon.**

# Y cais

Nodwch mewn perthynas â pha faes blaenoriaeth rydych chi'n cyflwyno'r cais (ticiwch un bocs yn unig)

- Darparu gwasanaethau eiriolaeth, cyngor ac arweiniad; datblygu seilwaith a meithrin gallu ☐
- Cysylltiadau da ☐

**a)** Nodwch i ba gategori y mae'ch cais yn berthnasol (ticiwch un bocs yn unig)

- Cynnig sefydliad unigol ☐
- Cynnig partneriaeth (consortiwm) ☐

**b)** Os yw'ch cais yn gynnig partneriaeth, rhestrwch bob grŵp neu sefydliad sydd yn y consortiwm yn y tabl isod:

| Enw'r sefydliad partner | Maes arbenigedd sy'n berthnasol i'r prosiect (rhestrwch y grwpiau cydradd doldeb sy'n elwa ar eu gwaith) |
|---|---|
| 1 | |
| 2 | |
| 3 | |
| 4 | |
| 5 | |
| 6 | |

**c)** Beth yw diben y bartneriaeth (consortiwm)?

**Os cewch eich gwahodd i gyflwyno cais ar gyfer cam 2, byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth fel tystiolaeth bod cytundeb yn bodoli rhwng y sefydliadau yn eich partneriaeth (consortiwm). Er enghraifft, Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi gan bob sefydliad partner.**

# Y sefydliad

**1a.** Ynglŷn â'r sefydliad a fydd yn gyfrifol am ddarparu'r prosiect

O hyn ymlaen, cyfeirir at y sefydliad hwn fel y 'sefydliad darparu'. Yn achos cynigion consortiwm, y prif ymgeisydd fydd y sefydliad hwn.

Enw'r sefydliad darparu:

Enw a swydd y prif gyswllt yn y sefydliad darparu (rhywun y gallwn ni drafod unrhyw agwedd ar y prosiect gydag ef/hi):

Cyfeiriad gohebiaeth:

Cod post:

Ffôn:

Ffacs:

Cyfeiriad e-bost:

Gwefan:

**1b.** Incwm

| | |
|---|---|
| Beth oedd cyfanswm eich incwm yn ystod 2007/08? | **£** |
| Faint o'r incwm hwn oedd yn incwm cyfyngedig? | **£** |

**Os cewch eich gwahodd i gyflwyno cais ar gyfer cam 2, byddwn yn gofyn i chi gyflwyno tystiolaeth o'ch incwm, er enghraifft, cyfrifon blynyddol neu gyfriflenni banc.**

# Hanes a statws cyfreithiol y sefydliad darparu

**2.** Hanes a statws cyfreithiol y sefydliad darparu (y prif ymgeisydd).

Llenwch bob bocs sy'n berthnasol.

| Statws cyfreithiol | Rhif y cofrestriad/ ymgorfforiad | Dyddiad cofrestru (neu sefydlu) |
|---|---|---|
| Elusen | | |
| Cwmni Buddiannau Cymunedol (cwmni di-elw â'u hasedau wedi'u cloi) | | |
| Cwmni cyfyngedig trwy warant (cwmni di-elw) | | |
| Grŵp anghorfforedig sydd eisoes yn bodoli neu wrthi'n cael ei ddatblygu | | |

Os nad yw'ch sefydliad yn un o'r uchod, nodwch pa fath o sefydliad ydyw, megis Cymdeithas Buddiannau Cymunedol (er enghraifft, Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus, Cymdeithas Lesiant Gofrestredig, Cymdeithas Gydweithredol) neu gwmni cyfyngedig trwy gyfranddaliadau, a chofiwch gynnwys eich manylion cofrestru.

# Rôl y sefydliad darparu

**3a.** Beth mae'r sefydliad darparu'n ei wneud. Disgrifiwch brif swyddogaeth a gwaith cyffredinol y sefydliad. **(Heb fod yn fwy na 200 gair)**

**3b.** Disgrifiwch y prif grwpiau cydraddoldeb sy'n elwa ar eich gwaith. Er enghraifft, rhyw, oedran, crefydd neu gred, pobl â chyflwr iechyd meddwl, cynhalwyr. Gallwch hefyd ddewis rhoi disgrifiad mwy manwl, er enghraifft, ymfudwyr newydd, dynion hoyw, Sipsiwn a Theithwyr.

**Noder: Os cewch eich gwahodd i gyflwyno cais ar gyfer cam 2, byddwn yn gofyn i chi ddarparu copïau o'ch Cyfansoddiad, eich Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu neu ddogfennau cyfatebol.**

# Trefniadau rheoli'r sefydliad darparu

**4.** Disgrifiwch eich strwythur rheoli, er enghraifft, Bwrdd Ymddiriedolwyr, Grŵp/Pwyllgor Rheoli neu strwythur cyfatebol.

Sawl unigolyn sydd ar eich Bwrdd Ymddiriedolwyr, Grŵp/Pwyllgor Rheoli neu strwythur cyfatebol?

Enw'ch Cadeirydd:

Dyddiad penodi:

Cyfnod yn y swydd:

# Polisïau'r sefydliad

**5a.** Polisïau sefydliadol y sefydliad darparu. Nodwch pa rai o'r polisïau canlynol sydd ar waith yn eich sefydliad neu y bwriedir eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod ariannu trwy roi ✔ yn y golofn berthnasol.

| Polisi | Ydy | Nac ydy | Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| **a)** Polisi cyfle cyfartal (cynllun cydraddoldeb) | ☐ | ☐ | ☐ |
| **b)** Polisi a gweithdrefn gwyno | ☐ | ☐ | ☐ |
| **c)** Polisi cynnwys defnyddwyr | ☐ | ☐ | ☐ |
| **d)** Polisi/gweithdrefn diogelu pobl sy'n agored i niwed, megis pobl ifanc/hŷn, pobl â chyflyrau iechyd meddwl (dim ond os ydych chi'n gweithio gyda'r grwpiau hyn) | ☐ | ☐ | ☐ |
| **e)** A ydy'r polisi diogelu'n cynnwys gwiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol lle bo hynny'n briodol? | ☐ | ☐ | ☐ |

**5b.** Os nad oes gennych chi bolisi cyfle cyfartal (cynllun cydraddoldeb), esboniwch sut mae'ch sefydliad wedi ymrwymo i gyfle cyfartal.

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

**5c.** Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus – nodwch uchafswm yr atebolrwydd dan yr yswiriant, er enghraifft, £1 miliwn.

**£** ..................................................

**Noder: Os cewch eich gwahodd i gyflwyno cais ar gyfer cam 2, byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth am y polisïau uchod a chopïau o'r polisïau hynny.**

# Y prosiect arfaethedig

**6a.** Beth yw enw neu deitl eich prosiect/rhaglen weithgareddau?

**6b.** Crynodeb o'r prosiect – eglurwch sut y bydd y gwaith y byddwch chi'n ei wneud yn cyfrannu at y canlyniadau rydych wedi'u dewis (gweler 6i. isod), yn enwedig y budd arfaethedig i'r prif grwpiau buddiolwyr. **(Heb fod yn fwy na 150 gair)**

**6c.** A yw'ch prosiect/rhaglen weithgareddau'n lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol? (ticiwch un bocs yn unig)

Lleol ☐ Rhanbarthol ☐ Cenedlaethol ☐

**6d.** Ym mhle y cynhelir eich prosiect? Nodwch y brif ardal ddaearyddol lle mae'r gweithgareddau'n debygol o gael eu darparu. Wrth wneud hynny, nodwch hefyd a fyddwch chi'n gweithio mewn ardaloedd gwledig.

**6e.** Pa rai o'r grwpiau cydraddoldeb a fydd yn elwa ar eich prosiect arfaethedig? Byddwch mor fanwl â phosibl, er enghraifft, menywod Asiaidd anabl dros 65 oed.

**6f.** A fydd y prosiect yn targedu unrhyw grwpiau eraill sy'n agored i niwed, er enghraifft, cynhalwyr, pobl â chyflyrau iechyd meddwl ac ati? Rhowch fanylion.

**6g.** Sut ydych chi'n bwriadu cefnogi gofynion hygyrchedd y gwahanol ddefnyddwyr gwasanaethau yn y prosiect?

**6h.** Hyd disgwyliedig (cyfnod darparu) eich prosiect mewn misoedd (hyd at 36 mis).

**6i.** O dan y maes blaenoriaeth rydych chi wedi'i ddewis, nodwch pa un o ganlyniadau rhagnodedig y Comisiwn y bydd eich prosiect yn ei gyflawni trwy ysgrifennu esboniad byr o sut y byddwch chi'n cyflawni'r canlyniad hwnnw. **(Bydd rhaid i'ch prosiect gyflawni o leiaf un o'r canlyniadau hyn)**

## Darparu gwasanaethau eiriolaeth, cyngor ac arweiniad; datblygu seilwaith a meithrin gallu

a) Rhoi mwy o gyfle i gymunedau sefydlu sefydliadau sy'n cynrychioli ac ymateb i'w buddiannau a'u hanghenion lle nad oes sefydliadau o'r fath yn bodoli eisoes (i gefnogi canlyniadau b) ac c) isod), ac annog sefydliadau a gwasanaethau cyfredol i ehangu a datblygu eu harbenigedd a'u gwasanaethau (unwaith eto i gefnogi canlyniadau b) ac c) isod).

b) Sicrhau bod gan unigolion, yn enwedig y rheini sy'n dioddef anghydraddoldeb ac anfantais, fwy o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain mewn perthynas â gofal cymdeithasol, iechyd, tai, addysg, cyflogaeth a chyngor busnes.

c) Sicrhau bod dioddefwyr pob math o drosedd casineb yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt a'r hyder i barhau â'u bywydau bob dydd.

## Cysylltiadau da

Mwy o ryngweithio a dealltwriaeth rhwng grwpiau a chymunedau nad ydynt yn cymysgu fel arfer neu lle mae yna densiwn penodol rhyngddynt.

# Yr angen am y prosiect

**7a.** Esboniwch sut y daethoch i'r casgliad bod angen y prosiect? Fel rhan o'ch ateb, dylech esbonio cyd-destun y sefyllfa a chyfeirio at dystiolaeth, fel ymchwil neu arolygon a gynhaliwyd ymhlith y gymuned leol a/neu'r grwpiau defnyddwyr targed, sy'n dangos galw heb ei ddiwallu am y prosiect. **(Hyd at 200 gair)**

**7b.** A oes unrhyw wasanaethau lleol cyfredol sy'n debyg i brosiect arfaethedig eich sefydliad? Oes ☐ Nac oes ☐

Os oes, sut fydd eich prosiect yn ategu'r gwasanaethau lleol hyn neu'n ateb y galw a nodir uchod?

**Noder: Os cewch eich gwahodd i gyflwyno cais ar gyfer cam 2, byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth am yr ymgynghoriadau rydych chi wedi'u cynnal i ddatblygu'ch prosiect a sut rydych chi'n bwriadu monitro a gwerthuso'r prosiect.**

# BCyllideb ar gyfer y prosiect arfaethedig

**8.** Llenwch y tabl hwn trwy roi amcangyfrifon o’r gwariant sylfaenol ar y prosiect arfaethedig (heb gynnwys costau hygyrchedd)

| | Colofn 1 | Colofn 2 | Colofn 3 | Colofn 4 | Colofn 5 | Colofn 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Blwyddyn 1 (£)** | **Blwyddyn 2 (£)** | **Blwyddyn 3 (£)** | **Cyfanswm cost y prosiect (£)** | **Cyfanswm y gofynnwyd i’r Comisiwn amdano (£)** | **Incwm arall – arian (£) neu o fath arall, sicr/ disgwyliedig, enw’r ariannwr** |
| **Eitem gwariant** | | | | | | |
| **Costau’r prosiect – staff** | | | | | | |
| **Costau’r prosiect – arall** | | | | | | |
| **Gorbenion** i’w priodoli i’r prosiect | | | | | | |
| **Costau cyfalaf** | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | | | |

**Noder: Os cewch eich gwahodd i gyflwyno cais ar gyfer cam 2, disgwylir i chi roi ffigurau mwy manwl ac esbonio’r rhagdybiaethau a’r cyfrifiadau y tu ôl iddynt (gan gynnwys gorbenion). Byddwn hefyd yn gofyn i chi gyflwyno cynllun busnes ar gyfer cynigion am dros £50,000 y flwyddyn ar gyfartaledd neu os ydych chi’n gwneud cais am gyllid am gyfnod hwy na 18 mis.**

**Costau hygyrchedd:** Faint fydd yn ei gostio i wneud y gweithgareddau’n hygyrch i fwy o bobl? Er enghraifft, trwy ddarparu addasiadau rhesymol fel: sicrhau bod dogfennau’r prosiect ar gael mewn Braille neu brint bras; llogi adeilad hygyrch; costau teithio; gwasanaethau crèche; cyfieithu: Cyfanswm: **£** ..........

**Cyfanswm y gofynnwyd i’r Comisiwn amdano, gan gynnwys costau hygyrchedd – ni ddylai fod yn fwy na £150,000 y flwyddyn: £** ..........

# Diogelu data a rhyddid gwybodaeth

Dylid nodi bod enwau'r sefydliadau a ariennir gan y Comisiwn, a'r symiau a ddyfernir iddynt, yn faterion cyhoeddus. Bydd y wybodaeth hon yn ein hadroddiad blynyddol. Hefyd, dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol ei bod hi'n ofynnol i'r Comisiwn ddarparu gwybodaeth am ei fusnes, gan gynnwys ymatebion i ymholiadau mewn perthynas â threfniadau ariannu'r Comisiwn a cheisiadau am gyllid, os yw'n derbyn cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Wrth ymateb i unrhyw geisiadau, bydd y Comisiwn yn ymwybodol o'r angen i beidio â mynd yn groes i unrhyw ddarpariaethau yn Neddf Diogelu Data 1999.

Bydd y Comisiwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais (ac yn ystod oes y grant, os caiff ei ddyfarnu) i weinyddu a dadansoddi ceisiadau a cheisiadau am gyllid. Hwyrach y byddwn yn darparu copïau o'r wybodaeth hon, yn gyfan neu'n rhannol, i sefydliadau ac unigolion rydym yn ymgynghori â nhw wrth asesu ceisiadau a monitro prosiectau. Gall y sefydliadau a'r unigolion hyn gynnwys aseswyr allanol, cyfrifyddion a sefydliadau neu grwpiau eraill sy'n helpu i gyflawni'r gwaith. Hwyrach y byddwn hefyd yn rhannu'r wybodaeth gydag adrannau'r llywodraeth, sefydliadau sy'n darparu arian cyfatebol, cyrff cyhoeddus anadrannol a sefydliadau ac unigolion eraill â diddordeb cyfreithlon yn y ceisiadau am grant a gyflwynir i'r Comisiwn.

I'n helpu ni i ddiwallu anghenion sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, hwyrach y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch at ein dibenion ymchwil, adrodd a hyrwyddo ein hunain. Hwyrach y byddwn hefyd yn anfon rhagor o wybodaeth atoch am ein gwaith a'n rhaglen grantiau.

Rydym yn cydnabod yr angen i gynnal cyfrinachedd sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, ac ni fyddwn yn cyhoeddi eu manylion cyswllt mewn unrhyw ffordd, ac eithrio lle bo hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

**9a.** Os nad ydych chi am i'ch sefydliad gymryd rhan mewn gwaith ymchwil, adrodd a hyrwyddo, rhowch ✔ yn y bocs hwn ☐

**9b.** Os nad ydych chi am i fanylion cyswllt eich sefydliad ymddangos ar wefan y Comisiwn, rhowch ✔ yn y bocs hwn ☐

**9c.** Os nad ydych chi am i fanylion cyswllt eich sefydliad gael eu trosglwyddo i drydydd partïon (er enghraifft, sefydliadau cydraddoldeb eraill neu'r cyfryngau), rhowch ✔ yn y bocs hwn ☐

# Llofnodion

**(Cadeirydd, Ysgrifennydd neu Drysorydd – nid y prif gyswllt nac unrhyw swyddog arall)**

**10. Datganiad**
Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y cais hwn yn wir a bod y pwyllgor rheoli neu gorff llywodraethu arall wedi awdurdodi'r cais hwn (sydd o fewn amcanion ein dogfen gyfansoddiadol) a'r gwaith arfaethedig a ddisgrifir ynddo.

**Enw:**

**Swydd**

**Llofnod:** **Dyddiad:**

# Cyflwyno'ch cais

I wneud cais am gyllid, bydd angen i chi gyflwyno:

- 1 copi electronig o'ch cynnig
- 2 gopi caled o'ch cynnig wedi'u llofnodi

Dylid cyflwyno copïau caled, drwy'r post neu yn bersonol, i:

Funding Unit
Equality and Human Rights Commission
3 More London
Riverside Tooley Street
London
SE1 2RG

Dylech hefyd anfon copi electronig mewn e-bost, o dan y pennawd 'Strategic Funding Programme 2009/10 + [enw'ch sefydliad]' i: **funding@equalityhumanrights.com**

Cofiwch fod angen i geisiadau electronig a chopïau caled ein cyrraedd erbyn **5pm ar 12 Mehefin 2009**. Caiff ceisiadau a fydd yn ein cyrraedd ar ôl y dyddiad cau hwn eu gwrthod yn awtomatig.

# Rhestr atgoffa

**Darllenwch y dudalen hon cyn cyflwyno'ch cais**

| **A ydych chi wedi:** | |
|---|---|
| Ateb pob cwestiwn ar y ffurflen? | ☐ |
| Cwblhau cwestiwn 10 gyda'r llofnodwr cywir? | ☐ |
| Cyflwyno dau gopi caled ac un copi electronig? | ☐ |
| Cyflwyno'r cais cyn y dyddiad cau? | ☐ |

**Noder** y byddwn yn gwrthod yn syth unrhyw gais nad yw'n bodloni'r holl ofynion uchod.

# Cysylltu â ni

**I gysylltu â'r Uned Ariannu:**
Ffoniwch 0203 117 0235 a gofynnwch am gael siarad ag aelod o'r Uned Ariannu, neu anfonwch e-bost i **funding@equalityhumanrights.com**

Fel arall, gallwch gysylltu â ni trwy ein gwefan yn **www.equalityhumanrights.com** neu drwy gysylltu ag un o'n llinellau cymorth isod.

Os ydych chi angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, ffoniwch y llinell gymorth berthnasol i drafod eich anghenion. Mae pob cyhoeddiad ar gael i'w lawrlwytho a'i archebu mewn ystod o fformatau ar ein gwefan.

**Llinell Gymorth — Cymru**
Ffôn: 0845 604 8810
Ffôn testun: 0845 604 8820
Ffacs: 0845 604 8830

**Llinell Gymorth — Lloegr**
Ffôn: 0845 604 6610
Ffôn testun: 0845 604 6620
Ffacs: 0845 604 6630

**Llinell Gymorth — Yr Alban**
Ffôn: 0845 604 5510
Textphone: 0845 604 5520
Fax: 0845 604 5530

9am–5pm dydd Llun i ddydd Gwener heblaw dydd Mercher 9am–8pm.

**Ar gyfer ymholiadau'r cyfryngau:**
Ffoniwch 0203 117 0255

© Equality and Human Rights Commission

Cyhoeddwyd ym mis Mai 2009

ISBN 978 1 84206 130 5